

Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI (FAN)

Gwnaethpwyd yng Nghymru 2021/22

Cefnogi cyrff sydd yn cyflwynn ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol i gynulleidfaoedd ar draws Cymru a'r DU.



Delwedd: Eternal Beauty (2020) / Bulldog Film Distribution



CHAPTER

Cynnwys:

Cyflwyniad	01
Beth ydy Ffilmiau Cymreig?	02
Beth fyddwn yn ei wneud yn fhw i gefnogi Ffilmiau Cymreig	03
Ein blaenoriaethau	04
Cynhwysiant & Cynulleidfaedd ifanc Treftadaeth, Sgiliau & Ymgysylltu gyda Chynulleidfaedd	
Cynaliadwydd Amgylcheddol & Safonau Amrywiaeth BFI	06
Cefnogaeth Gwnaethpwyd yng Nghymru ar gael	07
Sut i wneud Cais	08
Cyllid arall sydd ar gael	08

Cyflwyniad

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi cyrff sydd yn dangos ffilmiau i gynulleidfaedd cyhoeddus, o wyliau ffilm, i gymdeithasau a chanolfannau celfyddyd cymysg. Nod y gronfa yma ydy cyflwyno'r gorau o ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol i gynulleidfaedd ar draws Cymru.

Rydym yn rhan o rwydwaith DU gyfan o wyth o ganolfannau a gyllidir gan y Loteri Cenedlaethol drwy Sefydldad Ffilm Prydeinig (BFI). Rydym yn ffurfio'r Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) gyda Chapter wedi'i benodi fel y 'Corff Arweiniol Canolfan Ffilm' (FHLO) yng Nghymru.

Am enghreifftiau o'n gwaith hyd yn hyn, edrychwch [uchafbwyntiau Canolfan Ffilm Cymru](#)



Beth ydy Ffilmiau Cymreig?

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn cefnogi cyrff sydd yn dangos ymrwymiad drwy gydol y flwyddyn i ffilmiau annibynnol [1]

Treftadaeth Sgrin

Ffilmiau nodwedd proffesiynol, ffilmiau byr a dogfen y mae eu hawliau'n cael eu dal gan archifau sgrin e.e. The Life and Times of David Lloyd George (1918) neu ffilmiau amatur mewn casgliadau personol.

Ffilmiau Nodwedd a Ffilmiau Dogfen

- Yn cynnwys talent Cymreig (cyfarwyddwr/ cynhyrchydd/ awdur/ prif gast) e.e. ffilmiau'r actor [Ray Milland](#).
- Wedi'u gwneud gan gwmnïau cynhyrchu neu wneuthurwyr ffilmiau sydd yn weithredol yng Nghymru (yn cynnwys y rhai a wnaethpwyd gyda chyllid asiantaeth Gymreig neu Lywodraeth Cymru) e.e. [Eternal Beauty \(2020\)](#).
- Wedi'u gosod yng Nghymru, neu sy'n delio gyda straeon, digwyddiadau neu bobl Cymru e.e. [Tiger Bay \(1959\)](#).
- Ffilmiau Cymraeg e.e. [Yr Ymadawiad \(2016\)](#).
- Wedi'u gosod yng Nghymru neu yn delio gyda chymeriadau, digwyddiadau neu sefyllfaoedd yng Nghymru (gwir neu ddychmygol). e.e. [Pride \(2014\)](#). Caiff ffilmiau fel y rhain ac eraill eu hadolygu fesul cais.

[1] Mae enghreifftiau yn cynnwys: ffilmiau ieithoedd tramor gydag is-deitlau, ffilmiau dogfen, ffilmiau clasurol neu archif, ffilmiau sy'n anodd eu rhoi o dan bennawd, ffilmiau sy'n adrodd stori mewn dull anghonfensiynol, heriol, ffilmiau sydd yn arbrofol gyda thechnegau sinematig neu ffilmiau sy'n gwneud i chi feddwl nad ydyn nhw ar gyfer adloniant yn unig. BFI catalog ffilm chwiliadwy: collections-search.bfi.org.uk/web



Beth fyddwn yn ei wneud yn fhw i gefnogi Ffilmiau Cymreig

Yn ychwanegol at ein galwad am brosiectau ffilmiau Cymreig, rydym yn gweithio trwy gydol y flwyddyn ar y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo ffilmiau Cymreig:

- Ers 2013, rydym wedi cynnal 14 [diwrnod rhagddangos ffilmiau Cymreig](#) mewn 10 gwahanol lleoliad ar draws Cymru, gan alluogi arddangoswyr i weld ffilmiau o flaen llaw, rhwydweithio a chefnogi rhaglennu.
- Rydym yn cynnig [ystafell rhagddangos](#) i aelodau Canolfan lle mae modd iddyn nhw wyllo sginwyr ffilmiau Cymreig ar-lein.
- Rydym yn anfon newyddlenni rheolaidd yn cynnwys diweddariadau ar ffilmiau newydd.
- Rydym yn siarad yn rheolaidd gyda dosbarthwyr, gwneuthurwyr ffilm ac asiantaethau fel Ffilm Cymru Wales a [Cymru Greadigol](#) ar ffilmiau newydd sydd i ddod, gan drosglwyddo gwybodaeth drwy'r rhwydwaith.
- Rydym yn cynnal rhwydwaith DU rhaglenwyr ifanc gyda 4 lleoliad yng Nghymru a llawer mwy ledled y DU. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i gynulledifaoedd ifanc roi adborth ar ffilmiau Cymreig.
- Rydym yn cynnig adran [Gwnaethpwyd yng Nghymru](#) ar ein gwefan lle mae catalog o ffilmiau Cymreig wedi'u rhestru, yn cynnwys pecynnau wedi'u curadu'n ganolog fel [Depictions of Motherhood](#) a [Queer Love](#).
- Rydym yn cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd rhwng y cyrff ffilm ehangach yng Nghymru, o hyfforddiant i gynhyrchu, i ddatblygu dulliau marchnata canolog i ffilmiau Cymreig sydd yn rhoi hwb i broffil ffilmiau newydd ac yn cynnig gweithgaredd gwerth ychwanegol.
- Rydym yn cynnal ymchwil i botensial Gwnaethpwyd yng Nghymru fel brand ac yn ddiweddar rydym wedi penodi Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymr i adeiladu perthnasoedd ac ymwybyddiaeth cenedlaethol.



Ein blaenoriaethau

Caiff pob cynnig ei asesu yn erbyn y gallu a'r potensial i ddiwallu un neu ragor o amcanion craidd FHW:

Cynhwysiant

Rhaglenni ystyrion gydol y flwyddyn sydd yn dathlu amrywiaeth ar y sgrin, yn y gynulleidfa a thu ô i'r camera:

- Programmes led by and for Rhaglenni wedi'u harwain gan ac ar gyfer cymunedau lleiafrifol (e.e. cynulleidfa LGBTQIA+, POC Du ac heb fod yn Ddu, grwpiau oedrannus, anghenion amlsynhwyrdd, cynulleidfaoedd anabl, cymdeithasol economaidd isel, gwledig ac wedi'u tanwasanaethu, grwpiau ynysig, ieithoedd lleiafrifol)*
- Gwaith allgyrraedd neilltuol sydd yn dod â chynulleidfaoedd i'r gofod ffilm.
- Rhaglenni ffilm sydd yn cynrychioli diwylliannau a hunaniaethau amrywiol ar ac oddi ar y sgrin.

Cynulleidfaoedd ifanc

Gwella mynediad drwy gydol y flwyddyn i ffilmiau i gynulleidfaoedd ifanc rhwng 16-30 oed,

- Dewisiadau o ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol yn rheolaidd ar bris fforddiadwy.
- Anogaethau neu atebion teithio i gynulleidfaoedd ifanc neu deuluoedd mwy ynysig.
- Cyfleoedd i gasglu adborth gan ac adeiladu sgiliau i gynulleidfaoedd ifanc sydd yn gallu ffurfio rhaglenni yn y dyfodol.
- Cynlluniau curadurol ifanc,
- Prosiectau partneriaeth gydag Into Film ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed sydd yn creu perthnasoedd cryf rhwng cynulleidfaoedd ifanc a'u lleoliadau lleol.

*mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed oddi wrth aelodau sydd yn creu rhaglennu hygyrch i gynulleidfaoedd gyda namau clyw neu golwg.



Ymgysylltu gyda Chynulleidfaoedd

Denu a chynnal cynulleidfaoedd ar gyfer sinema Prydeinig annibynnol (yn cynnwys Cymreig) a rhyngwladol, gan gynnig profiad diwylliannol dwfn:

- Dulliau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus sydd yn profi technegau arloesol i ddenu cynulleidfaoedd,
- Defnyddio technolegau digidol i hyrwyddo ymgysylltiad cyfoes gyda ffilmiau, fel sesiynau Holi ac Ateb byw neu vox pops,
- Gwaith allgyrraedd hir dymor i ymgysylltu gyda rhai sydd ddim yn mynychu yn hytrach na digwyddiadau untro,
- Ymchwil cynulleidfa sydd yn ein galluogi i ddeall ein cynulleidfaoedd.
- Dathlu ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig gan gynnig llwyfan i dalent Cymreig. Dylid cyflwyno rhaglenni Gwnaethpwyd yng Nghymru hefyd i'r gronfa yma ([gweler ein strategaeth am ragor o fanylion](#)),
- Gwyliau neu rwydweithiau arloesol sydd yn annog modelau darpariaeth cynaliadwy a chynulleidfaoedd yn dychwelyd i sinemau Prydeinig, rhyngwladol ac annibynnol. Gellir hefyd gofyn am gyllid gan [Ffilm Cymru Wales](#) ar gyfer cyllido gwyliau neu ar gyfer gwyliau o arwyddocad cenedlaethol o [Gronfa Cynulleidfa BFI](#).

Gweler hefyd ein [Strategaeth Gwyliau](#) ar gyfer cefndir.

Treftadaeth

Dathlu ein hunaniaeth cenedlaethol, iaith a diwylliant drwy ffilm.

- Hwyluso rhagor o fynediad i dreftadaeth sgrin gan ganolbwyntio ar gasgliadau cenedlaethol a rhanbarthol, cynyddu gwerthfawrogiad ar gyfer ffilmiau treftadaeth ar draws pob oedran.

Sgiliau

- Gweler ein [Canllawiau Hyfforddi](#) i wneud cais am fwrseriaeth sgiliau.

Delwedd: Joanna Quinn / Anim18 © Helen Griffiths



Ein Hymrwymiad i Gynhwysiant

Cynaliadwydd Amgylcheddol

Rydym yn ymrwymedig i leihau effaith amgylcheddol y gwaith a gefnogwn ac rydym yn gofyn i bawb sydd yn derbyn cyllid i wneud yr hyn a allant i gyfrannu at y nod yma.

Fel rhan o'ch cais, gofynnir i chi pa fesurau y gallech eu cymryd i gadw effaith amgylcheddol eich prosiect i'r lleiaf.

Mae rhai enghreifftiau ysbrydoledig o arddangoswyr sydd yn gwneud gwaith yn y maes yma yn cynnwys Scott Cinemas, HOME, Curzon and Depot. Mae gennym hefyd restr o adnoddau ar ein gwefan, yn cynnwys [ICO Greening Your Cinema Toolkit](#).

Safonau Amrywiaeth BFI

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod cynulleidfaoedd sydd wedi eu heffeithio yn anghymesur fel POC Du neu POC heb fod yn Ddu, pobl anabl, Byddar a niwroamrywiol yn gallu profi ffilmiau annibynnol ac yn cael eu croesawu i ofod gwyliau. Rydym yn cefnogi [Safonau Amrywiaeth BFI](#), y gellir eu rhannu'n fras i'r pedwar maes canlynol:

- **Ar sgrin** (darlunio naratif, cast a lleoedd amrywiol).
- **Criw amrywiol** (pwy sydd yn rhan o wneud y ffilmiau a ddangosir?)
- **Mynediad i'r diwydiant neu hyfforddiant** (yn cynnig cyfleoedd hygyrch i brofiad gwaith neu ddatblygiad proffesiynol).
- **Darparu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol** (darparu mynediad i'r anabl, prosiectau arbenigol i gynulleidfaoedd targed, darparu ar gyfer rhanbarthau penodol yn y DU).

Rydym hefyd yn annog partneriaid i archwilio canllaw Sinema Cynhwysol i ['Chwalu Anghyfartaledd Strwythurol yn eich Sinema'](#).



Cefnogaeth Gwnaethpwyd yng Nghymru ar gael

- Mae Canolfan Ffilm Cymru yn dathlu Cymru drwy ffilm drwy gydol y flwyddyn drwy Strategaeth Gwnaethpwyd yng Nghymru.
- Hyd yn hyn rydym wedi cefnogi arddangos 235 o ffilmiau Cymreig unigryw.
- Rydym yn cynnig dau fath o gyllid ffilm i brosiectau yn rhedeg rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 yn ychwanegol at amrediad o weithgareddau cenedlaethol wedi'u bwriadu i roi hwb i gynulleidfaedd ar gyfer ffilmiau Cymreig.

1. Cronfa Arddangos Ffilmiau (CAFF)

Os ydy ffilmiau Cymreig yn rhan mawr o'ch cynlluniau ailagor ar ôl Covid-19 a'ch bod angen cefnogaeth ar gyfer costau gweithgaredd i raglenni sgrinio hirach o ffilmiau ar draws y flwyddyn, gallwch wneud cais i'r Gronfa Arddangos Ffilmiau

Does dim angen enwi rhestr lawn o ffilmiau ar adeg gwneud cais ond mae angen i bartneriaid fod yn ymroddedig i ddatblygiad cynulleidfaedd ffilmiau Cymreig ar draws y flwyddyn, yn cynnwys ffilmiau newydd a rhyw syniad o deitlau hanesyddol os yn berthnasol.

Fe fydd prosiectau sydd yn cynhyrchu incwm, partneriaethau rhwng lleoliadau a mynediad i gymunedau lleiafrifol yn cael eu blaenoriaethu.

2. Pot Cynigion CAFF

Rydym hefyd yn cynnig potiau cynigion llai o hyd at £500 i raglenni ffilmiau archif Cymreig, Cymraeg neu ffilmiau a wnaethpwyd yng Nghymru fel rhywbeth untro, ar sail treigl.

Gall enghraifft o hyn gynnwys rhaglennu un neu ddwy o ffilmiau rydych chi wedi eu gweld mewn diwrnod rhagolwg ffilmiau

Fe fydd digwyddiadau sydd yn cynnwys marchnata creadigol, siaradwyr gwadd, gweithdai, sgysiau, dolenni i ffilmiau treftadaeth, grwpiau trafod, rhediadau sydd yn cynnig mwy nag un dangosiad a ffilmiau Cymraeg yn cael eu blaenoriaethu.

Ar gyfer ffilmiau Cymreig, rydym yn croesawu prosiectau sydd yn:

- Ystyried gweithio gyda chanolfannau Cymraeg, arbenigwyr a grwpiau gwirfoddolwyr.
- Gweithio gyda phartneriaid i roi hwb i'r defnydd o ffilmiau Cymreig ar draws 10 neu ragor o sgriniau.
- Cynnig rhaglennu mwy eofn, estynedig gyda gwerth ychwanegol i'r profiad ffilm.
- Dathlu rhaglennu thematig a chysylltu gydag ymgyrchoedd marchnata ehangach.
- Cynnig mwy nag u dangosiad yn unig a chyfle i gynulleidfaedd dychwelyd.

Sut i wneud Cais

[Edrychwch ar ein canllawiau Arddangos Ffilmiau a ffurflenni cais](#)

Camau Nesaf

Os hoffech drafod cynnig potensial gyda FHW cyn y cais, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

- Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu - lisa@filmhubwales.org / 02920 311067
- Hana Lewis, Rheolwraig Strategol y Ganolfan - hana@filmhubwales.org / 02920 353740

Cyllid arall sydd ar gael

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn cynnig cyfleoedd drwy gydol y flwyddyn ar gyfer gweithgaredd arddangos annibynnol yng Nghymru. Rydym yn cynnig dau faes o gyllid ar draws 'hyfforddiant a sgiliau' a 'chynulleidfaoedd'. Gall aelodau wneud cais i'r canlynol:

Audiences:

- [Cronfa Arddangos Ffilm \(CAFf\)](#)
- [Pot cynnig CAFf](#)
- [Gwnaethpwyd yng Nghymru](#) (dylid gwneud ceisiadau i CAFf)
- [Ffilmiau newydd](#)

Hyfforddiant a Sgiliau:

- [Bwrseriaethau](#)

Rydym hefyd yn cynnig digwyddiadau rhwydweithio, cyrsiau hyfforddi, cymorth marchnata, newyddion ffilm a chyfle i gymryd rhan mewn [tymhorau ffilm cenedlaethol fel Film Feels](#).

Dim yn aelod o Ganolfan Ffilm Cymru?

Mae ein haelodaeth am ddim i gyrff cymwys ac mae'n cynnig mynediad i'n hamrediad o gyllid, cefnogaeth a manteision. [Darllenwch ein canllawiau i aelodau ac ymunwch yma.](#)